

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

MANYLEB SWYDD

Teitl:	Cydlynnydd Cymorth Tai
Cyflogwr:	Home-Start Cymru
Cyflog:	£22,047 FTE (pro rata)
Oriau:	21 awr yr week
Lleoliad:	Bwrdeistref Caerffili
	Mae Home-Start ar hyn o bryd yn gweithio dan amodau cyfyngedig oherwydd Covid-19, felly efallai y bydd angen gweithio o bell ar benodiad i'r rôl os yw'r cyfyngiadau yn parhau mewn grym.
Yn atebol i:	Rheolwr Ardal
Yn gyfrifol am:	Llwyth achosion o deuluoedd

Home-Start Cymru

Mae angen cartrefi hapus, iach ar blant er mwyn ffynnu. Mae bod yn rhiant i blant ifanc yn heriol ar yr adegau gorau. Mae teuluoedd yn wynebu mwy o bwysau nag erioed, gyda llawer o rieni yn gweld y gofynion ymarferol ac emosiynol yn llethol. Dyna pryd y gall Home-Start Cymru helpu. Mae gwirfoddolwr a ddewiswyd yn ofalus yn ymweld yn rheolaidd i gynnig cymorth emosiynol ac ymarferol.

Mae Home-Start Cymru yn gweithio gyda theuluoedd â phlant ifanc drwy fodel cymorth sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr ac sy'n ymweld â'r cartref. Rydym yn cyfuno cryfderau ein rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol ledled Cymru gyda'n harbenigedd proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar. Rydyn ni yno i rieni pan fyddan nhw ein hangen ni fwyaf, oherwydd ni all plentyndod aros.

Daw ein gwirfoddolwyr o'r cymunedau y maent yn eu cefnogi, ac mae'r gwaith yr ydym nid yn unig yn helpu rhieni a phlant, ond yn gwneud gwahaniaeth hanfodol i gryfhau cymunedau.

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

SWYDD DDISGRIFIAD

Diben y Rôl

Bydd y Cydlynnydd Cymorth Tai yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Ardal i reoli llwyth achosion teuluoedd a atgyfeiriwyd yn briodol. Byddant yn gyfrifol am asesu, adolygu a darparu cymorth uniongyrchol. Bydd teuluoedd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth sy'n ymwneud â thai a chymorth ariannol, ochr yn ochr â'u lles emosiynol.

Crynodeb o'r Swydd:

- Cyfrannu at weithrediad effeithiol y cynllun o ddydd i ddydd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau, canllawiau swyddogol a safonau Home-Start Cymru.
- Cynnal safonau uchel o ymarfer wrth gefnogi teuluoedd o fewn y model Home-Start.
- Sicrhau cyfle cyfartal, tegwch ac amrywiaeth ym mhob agwedd o'r gwaith.
- Gweithredu a glynu at arferion diogelu da ym mhob maes gwaith.

Cyfrifoldebau Allweddol

Cefnogaeth i deuluoedd

- Derbyn cyfeiriadau ac asesu anghenion teuluoedd.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth berthnasol ynglŷn â thaith y teulu yn cael ei chofnodi'n briodol.
- Sicrhau bod cymorth i deuluoedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac ar ddiwedd y cymorth Home-Start, yn unol â chanllawiau cyfredol Home-Start.
- Dogfennu adolygiadau a chloi teuluoedd yn unol â pholisïau Home-Start Cymru.
- Ymgymryd â chyfrifoldebau dynodedig i ddiogelu a hybu lles plant.
- Cydlynu a chefnogi cymorth cyflenwol ychwanegol os yn berthnasol e.e. grwpiau
- Cefnogi teuluoedd gyda materion yn ymwneud â thai
- Cefnogi teuluoedd i gael mynediad at gyngor ac arweiniad ariannol

Gweithio mewn Partneriaeth

- Sicrhau cyswllt priodol ag atgyfeirwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth pan fo angen neu pan ofynnir i chi wneud hynny.
- Hyrwyddo'r sefydliad, ei broffil, ei ethos a'i ymarfer trwy gyflwyniadau a chyfranogiad mewn cyfarfodydd, rhwydweithio a digwyddiadau lleol/rhanbarthol.
- Cyfrannu at ddatblygiad Home-Start yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

Dyletswyddau ychwanegol

- Cyfarfod yn rheolaidd gyda'r tîm rheoli, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd mewnol perthnasol eraill.
- Cydweithio gyda'r Rheolwr Ardal ac aelodau staff i sicrhau bod gweithgareddau'r prosiect yn cael eu cyflawni a thargedau/canlyniadau'n cael eu bodloni yn unol â gofynion y cyllidwr.
- Gweithio i weinyddiaeth y sefydliad, gan gynnwys darparu data a gwybodaeth ystadegol ar gyfer adroddiadau.
- Unrhyw ddyletswyddau ychwanegol eraill sy'n disgyn o fewn natur rôl a chyfrifoldebau'r swydd fel y manylir uchod.

MANYLEB PERSON

	Hanfodol	Dymunol
Education and Qualifications		
Lefelau 'A'/NVQ – cyfwerth	√	
Profiad		
Profiad o reoli a datblygu pobl	√	
Profiad amlwg o weithio gyda theuluoedd a gwirfoddolwyr	√	
Y gallu i weithio ar eich menter eich hun;	√	
Y gallu i gyfathrebu, trafod a dylanwadu;	√	
Y gallu i weithio fel aelod o dîm;	√	
Sgiliau gweinyddol cryf;	√	
Y gallu i ysbrydoli ymddiriedaeth.	√	
Yn ymwybodol ac yn sensitif i faterion cyfle cyfartal	√	
Angerdd dros weithio yn y sector gwirfoddol		√
Y gallu i ymgysylltu â phobl trwy lwyfannau digidol		√
Sgiliau a Phriodolledau Hanfodol		
Empathig, tawel a di-wrthdrawiadol	√	
Egni, brwdfrydedd, hyblygrwydd, ymrwymiad, uniondeb, cymhelliant	√	
Ymrwymiad i weithio mewn ffordd anfeiriadol a gwrth-wahaniaethol	√	
Ymrwymiad i weledigaeth, cenhadaeth a phwrpas Home-Start Cymru	√	
Ymrwymiad i ddatblygiad personol a gyrfa	√	
Gyrrwr car gyda thrwydded gyfredol, yswiriant modur defnydd busnes, a defnydd o gerbyd sy'n addas ar gyfer y ffordd fawr	√	
Tystiolaeth o hyfforddi oedolion	√	
Sgiliau a Gwybodaeth		
Ymrwymiad i fodelu'r ymddygiadau sy'n enghreifftio gwerthoedd y sefydliad	√	
Dealltwriaeth ardderchog o strwythurau'r Sector Gwirfoddol ac Awdurdodau Lleol	√	

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

Dealltwriaeth o'r Sector Cymorth i Deuluoedd a Gwasanaethau Plant yng Nghymru	√	
Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn gallu addasu arddull mewn sefyllfaoedd amrywiol a chydag ystod o gynulleidfaoedd, gan ystyried gwahanol anghenion pobl	√	
Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, y gallu i adnabod, sefydlu a meithrin perthnasau, partneriaethau a rhwydweithiau mewnol ac allanol cynhyrchiol	√	
Sgiliau cyfathrebu dwyieithog llafar ac ysgrifenedig da (Cymraeg/Saesneg) (hanfodol/dymunol yn dibynnu ar leoliad)		√
Arall		
Dealltwriaeth o reoli technoleg gwybodaeth yn y gweithle	√	
Ymrwymiad amlwg i werthoedd ac egwyddorion CCUHP	√	
Dealltwriaeth amlwg o gydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a diogelu ac ymrwymiad iddynt	√	
Agwedd hyblyg at waith, gyda'r parodrwydd i weithio rhywfaint o waith gyda'r nos neu ar y penwythnos a hyfforddiant preswyl achlysurol	√	

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Gwneud Cais

Gallwch wneud cais am y rôl hon drwy ddychwelyd eich CV a llythyr eglurhaol at Meirwen Jones Pennaeth Gweithrediadau yn mjones@homestartcymru.org.uk

Ar ôl darllen y Disgrifiad Swydd a Manyleb Person uchod yn ofalus, dylai eich llythyr eglurhaol esbonio eich cymhelliant dros wneud cais a pham y credwch eich bod yn addas ar gyfer y rôl hon, **gan roi sylw arbennig i unrhyw addysg a chymwysterau, profiad, sgiliau a gwybodaeth berthnasol**. Mae croeso i chi hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol y credwch y gallai fod o fantais i'ch cais.

Lle bo'n berthnasol, dylai eich CV amlinellu eich:

- manylion personol (enw, cyfeiriad, rhif cyswllt a/neu e-bost)
- addysg a chymwysterau
- aelodaeth o gyrff proffesiynol
- rôl bresennol
- rolau blaenorol
- profiadau perthnasol
- enw, cyfeiriad ac e-bost dau ganolwr: eich cyflogwr diweddaraf a rhywun sy'n gallu darparu geirda cymeriad

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Meirwen Jones ar mjones@homestartcymru.org.uk

Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5pm dydd Mawrth 24 Mai 2022**

Cynhelir cyfweiliadau o bell **ddydd Llun 30 Mai 2022**

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cysylltwch â ni os oes angen copi o'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy e-bostio: mjones@homestartcymru.org.uk